



Rhif: 8

Enw'r Ardal
Cymeriad Morwedd:


Môr Agored y Gogledd



ACM8: Môr Agored y Gogledd



Ardal sy'n weladwy o Ben Dinas



Ardal sy'n weladwy ar y gorwel o Fae Ceithwr

Disgrifiad Cryno

Mae'r ardal alltraeth eang hon wedi'i lleoli yn Sianel San Siôr ar ymyl deheuol Bae Ceredigion sy'n ymestyn allan i'r terfyn 12nm. Yn bennaf mae'r dŵr o ddyfnder canolig ac mae yma dywod graean bras gyda gwasgiant tonnau isel ond tua'r arfordir mae'n cynnwys bar tywod graean bas Pen Strwml gyda gwasgiant tonnau uwch.

Nodweddion Allweddol

- Dŵr dyfnder canolig yn bennaf ar wely môr o raean tywodlyd.
- Yn gyffredinol gwasgiant tonnau isel a chyflymder llanw isel yn gyfochrog â'r arfordir ar hyd Sianel San Siôr.
- Dŵr mwy bas o gwmpas Banc Strwml i'r de gyda gwasgiant tonnau uchel.
- Ychydig o longdrylliadau, yn arbennig felly wrth nesáu at Borthladd Abergwaun, i'r gogledd o Ben Strwml.
- Defnyddir ar gyfer hwylio pleser gan fadau mwy o faint, llongau masnach a llongau fferi i Borthladd Abergwaun ac oddi yno.
- Môr agored gyda nodweddion syml, agored ar raddfa fawr ac yn dominyddu mae ymchwydd, tonnau a gwynt gydag ymdeimlad o bellnigrwydd.
- Y nodweddion arfordirol allweddol yw Penrhyn Cemaes a Phenrhyn Dinas gyda chefnidir o fryniau arfordirol yn cynnwys Mynydd Carningli ac i'r dwyrain o Ben Strwml.
- Bydd y goleudy ym Mhen Strwml yn amlwg iawn gyda'r nos, yn yr un modd goleuadau stryd Abergwaun a phorthladd y fferi o bellterau agosach. Bydd y rhan fwyaf o'r arfordir yn dywyll.
- Bydd y llonyddwch yn lleihau yn sgil defnyddio'r ardal ar gyfer ymarfer MOD.

Dylanwadau Ffisegol

Gwely môr grean tywodlyd o ddyfnder canolig (30-60m), yn goleddu'n raddol i'r gogledd orllewin (<1°) gyda bariau cul o raean a thywod graeanog sy'n ymestyn i'r dwyrain-gogledd ddwyrain - gorllewin-de orllewin ar hyd yr arfordir. Mae'r moroedd yn agored i wasgiant tonnau isel. Mae'r cerrynt o'r môr wedi'u gosod i'r dwyrain-gogledd ddwyrain - gorllewin-deorllewin ar hyd ar arfordir. Mae gwaddodion gwely môr yn gorchuddio craigwely Jurassic-Cenozoic ac yn taro dwyrain-gogledd ddwyrain - gorllewin-deorllewin, ac yn cael eu torri gan namau sy'n dilyn yr un trywydd. Tuag at yr arfordir i'r gogledd o Drwyn Crincoed a Phen Strwml, mae'r gwely môr yn mynd yn fas i far graean tywodlyd Banc Strwml dwyrain-gorllewin (<30m). I'r gogledd o fae Abergwaun mae'r gwely môr bas yn agored i wasgiant tonnau uchel. O dan yr ardaloedd bas hyn mae'r craigwely yn dywodfeini Ordovician a folcanigau i gyfeiriad y dwyrain-gorllewin.

Mae rhan ddwyreiniol yr ardal yn SAC Bae Ceredigion.

Dylanwadau Diwylliannol

Mae llwybrau/cysylltiadau hanesyddol sy'n gysylltiedig â'r ardal hon yn cynnwys masnach arfordirol a hanes perthynas forol ar hyd dyfrffyrdd y gorllewin. Fel ardal dŵr dwfn mae'r nodweddion yn gyfyngedig i safleoedd llongdrylliadau. Mae'r berthynas weledig yr ardaloedd pell o'r lan yma gyda Bae Ceredigion gyfan mor bell â Llyn (ar ddiwrnod clir) yn pwysleisio diwylliant arfordirol gorllewin Cymru.

Bydd llongau fferi rhwng Abergwaun a Rosslare a llongau masnach yn croesi'r ardal yn rheolaidd gyda'r gweithgarwch mwyaf i'r de wrth nesáu at Borthladd Abergwaun.

Y defnydd adloniadol mwyaf fydd hwylio yn lleol o hen borthladd Abergwaun a rhai jet sgis gyda'r glannau trwodd i longau morio achlysurol yn teithio i fyny ac i lawr Môr Iwerddon. Mae yna lwybrau mordeithio yn cysylltu Abergwaun â manau i'r de/gorllewin, ac i'r gogledd ar draws Bae Ceredigion.

Mae pysgota yn cynnwys rhwydi gosod gyda'r glannau, cimwch a photio crancod a photensial ar gyfer treillio dwrgwn ysgafn.

[Yn y gorffennol rhoddwyd trwydded Rownd 24 i'r ardal ar gyfer olew a nwy a gellir gwneud](#)

ceisiadau yn y dyfodol. Mae'n rhan o faes tanio Aberporth ac yn ardal ymarferion militaraidd. Mae yna dir dadlwytho/gwastraff gwely môr bychan yn agos iawn i Abergwaun.

Nodweddion esthetig, canfyddiadol a phrofiadol

Mae'r ardal hon yn ymestyn hyd at 12nm o'r lan ac felly o Benrhyn Dinas i'r fan hon fe fydd amrywiaeth eang o brofiadau o ddominyddiaeth clogwyni uchel i fôr agored i dir sy o'r braidd yn weladwy o dan y rhan fwyaf o amodau. Yn y rhan fwyaf o'r ardal bydd yr arfordir yn nodwedd fach ond amlwg i ddefnyddwyr badau yn dibynnu ar welededd. Y prif nodweddion fydd Penrhyn Cemaes a Phenrhyn Dinas gyda chefnidir o fryniau arfordirol yn cynnwys Mynydd Carningli ac i'r dwyrain o Ben Strwmbel. Yn gyffredinol bydd y tir yn ymddangos yn llinell sengl ddimensiynol ar y gorwel gyda lliwiau syml. Gwelir anheddiad amlwg Abergwaun gyda'r glannau. O'r tir mae'r ardal yn weladwy o'r arfordir, yn cynnwys mannau gweld amlwg megis Llwybr yr Arfordir, sy'n mwyhau'r ymdeimlad o ddiffeithwch a natur agored yr arfordir hwn mewn mannau.

Mae gan y môr gymeriad syml, cyson ac unedig ar raddfa fawr ac ymdeimlad arbennig o fod yn agored, yn bellennig ac amlwg sy'n cynyddu tua'r gogledd. Penderfynir ar ei nodweddion yn llwyr gan rymoedd naturiol y môr, trwy ymchwydd a thonnau, a gwynt. Mae'r ardal yn agored i wyntoedd o'r de orllewin ac o'r gogledd ac mewn tywydd gwael mae'r môr yn gallu bod yn fygythiol. Mae tebygrwydd cryf o lonyddwch ac ymdeimlad o ddiffeithwch a phellenigrwydd yn y môr agored hwn

Bydd cyfyngu ar nifer y llongau pleser ond fe welir llongau fferi yn rheolaidd yn mynd i mewn ac allan o Borthladd Abergwaun ac ambell long fasnach hefyd fydd yn cyflwyno elfennau gwneud a symudiadau ac yn lleihau'r tawelwch a'r ymdeimlad o bellennigrwydd. Bydd y defnydd o'r ardal ar gyfer ymarferion militaraidd a hyfforddiant yn tarfu ar y tawelwch ar brydiau

Buddion diwylliannol a gwasanaethau

Mae'r ardal yn cyfrannu'n sylweddol tuag at wasanaethau hamdden ac adloniadol ar lun adloniant morol h.y. hwylio a mordwyo modur, i dreftadaeth naturiol yn rhinwedd ei rôl fel rhan o SAC Bae Ceredigion, ac i wasanaethau diwylliannol ac ysbrydol ar lun y môr sy heb ei ddifetha bron ac sydd i'w weld o arfordiroedd gwyllt, sensitif y Parc Cenedlaethol.

Rhesymau Dros Newid								
Crynodeb	Rhesymau allweddol dros newid							
<p>Rhesymau cyfyngedig dros newid mewn dyfroedd dyfnder canolig. Gall y mannau bas ynm Manc Strwml gronni trwy ddrifft gwaddod o'r glannau.</p> <p>Gall caniatáu trwyddedau olew a nwy arwain at bwysau i ddatblygu yn y dyfodol.</p> <p>Defnyddio ar gyfer amcanion MOD.</p>	Rhinweddau Arbennig	Prosesau naturiol/newid hinsawdd	Prosesau naturiol/newid hinsawdd	Prosesau naturiol/newid hinsawdd	Prosesau naturiol/newid hinsawdd	Prosesau naturiol/newid hinsawdd	Prosesau naturiol/newid hinsawdd	Prosesau naturiol/newid hinsawdd
	Ysblander yr arfordir							
	Ynysoedd							
	Amrywiaeth y Tirlun							
	Pellenigrwydd, Tawelwch a Diffeithwch							
	Daeareg Amrywiol							
	Cyfoeth Cynefinoedd a Bioamrywiaeth							
	Archaeoleg Gyfoethog							
	Cymeriad Anheddiad Nodedig							
	Treftadaeth Ddiwylliannol							
	Mynediad i'r Parc							
	Lle i Anadlu							
	Allwedd		Newid yn digwydd yn yr ardal sy'n effeithio ar y nodwedd arbennig ddewisedig					
Sensitifeddau allweddol								
Ffactorau sy'n cyfrannu at sensitifrwydd	Ffactorau sy'n tynnu oddi wrth sensitifrwydd							
<p>Cymeriad syml, agored diffaith a phellennig gyda golygfeydd clir o arfordir y Parc Cenedlaethol.</p> <p>Ffurio rhan o leoliad agored Bae Ceredigion gyda Llwybr Arfordir Sir Benfro yn edrych dros hwnnw ac yn cyfrannu at yr ymdeimlad o bellennigrwydd a diffeithwch yn yr ardal.</p> <p>Gwerth cadwraeth natur rhan o'r ardal fel SAC.</p> <p>Llwybr Arfordir Sir Benfro a Chymru yn edrych dros yr ardal o bellter.</p>	Presenoldeb MOD yn lleihau'r llonyddwch.							